Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

# Holi ac Ateb ar yr Ymgynghoriad ar Gyflogau Aelodau'r Cynulliad

Mae'r Bwrdd Taliadau annibynnol yn cynnig pennu cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad ar ddechrau'r Cynulliad nesaf yn 2016 ar £64,000.

Mae hwn yn gyflog newydd, ar gyfer swydd newydd fydd â llawer mwy o gyfrifoldeb. Mae'n rhoi i ystyriaeth swyddi cymharol mewn mannau eraill a chyflwr economi Cymru.

Mae'r Bwrdd yn gwneud cynllun pensiwn yr Aelodau yn llai hael, sy'n lleihau'r gost ychwanegol i'r trethdalwr.

Caiff cyfanswm y tâl i lawer o ddeiliaid swyddi ei gyfyngu neu ei leihau ychydig.

Ar gyfer y blynyddoedd ar ôl 2016, byddai cyflogau yn newid yn unol ag enillion canolrifol yng Nghymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal tan 12 Ionawr a hoffem annog pobl i ddarllen ein hadroddiad ac ymateb yn adeiladol i'n cynigion.

## Y Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010 ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau teg a phriodol i gyflawni eu swydd hanfodol o gynrychioli pobl Cymru, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a deddfu ar gyfer Cymru.

Yr aelodau presennol yw:

- Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)
- Mary Carter
- Stuart Castledine
- Yr Athro Monojit Chatterji
- Yr Athro Laura McAllister

Gellir cael rhagor o fanylion, gan gynnwys proffiliau yn:
**http://senedd.cynulliad.cymru/mgCommitteeDetails.aspx?ID=375**

**Pam rydych yn credu bod swydd Aelod Cynulliad yn cyfiawnhau'r cyflog hwn?**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am wariant trethdalwyr o £15 biliwn i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; mae'n goruchwylio ac yn herio'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud; mae'n deddfu ar gyfer Cymru; ac mae'n cynrychioli buddiannau ein dinasyddion.

Mae swydd Aelod Cynulliad bellach yn gyfartal â swydd deddfwyr cenedlaethol eraill yn y DU ac mae eu rolau hefyd union yr un fath:

- maent i gyd yn cynrychioli eu hetholwyr;
- maent i gyd yn cynnig, yn diwygio ac yn cymeradwyo deddfwriaeth;
- maent i gyd yn awdurdodi symiau enfawr o wariant cyhoeddus; ac
- maent i gyd yn goruchwylio gweithgareddau llywodraethau cenedlaethol.

Bydd swydd Aelod Cynulliad yn cario llawer mwy o gyfrifoldeb yn 2016 nag y mae heddiw - gydag awdurdod newydd dros drethiant a benthyciadau'r llywodraeth a'r tebygrwydd o gynnydd pellach mewn ehangder cymhwyster deddfwriaethol.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau gyda llawer yn llai o Aelodau na seneddau eraill yn y DU a thramor, ac mae'n llai na llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly, nid oes unlle i guddio yn y Cynulliad Cenedlaethol: mae gan bob Aelod lefel uchel o gyfrifoldeb neu awdurdod gweithredol o ran goruchwylio'r llywodraeth. Yn ei dro, mae hyn yn golygu na all y sefydliad fforddio i gael Aelodau nad oes ganddynt y cymwyseddau i ymateb i'r heriau hyn.

**Sut y gwnaethoch y penderfyniad hwn?**

Mae llawer o gyfrifoldebau ar ysgwyddau Aelodau'r Cynulliad ac mae pwysau'r gwaith yn cynyddu. Yn sgil cyfrifoldebau newydd, bydd disgwyliadau newydd ar Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r hyn a wnawn yn asesiad gwrthrychol o'r hyn y mae swydd mor bwysig yn y Cynulliad yn 2016 yn ei haeddu o ran taliadau.

Ystyriwyd y dasg o dri safbwynt gwahanol a chyfunwyd y dystiolaeth o bob un o'r rhain. Y tair prif ystyriaeth oedd:

- sicrhau bod y cyflog yn adlewyrchiad priodol o'r cyfrifoldebau ar ysgwyddau Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad ynghyd ag ansawdd yr unigolion sydd eu hangen i gyflawni rôl mor hanfodol;
- ystyried gwerth y pecyn cyfan o daliadau, gan gynnwys cyflog a phensiwn;
- cymharu data ar daliadau ag enillion a rolau tebyg yn yr economi ehangach, yn arbennig yng Nghymru.

Drwy ein gwaith ymchwil a dadansoddi o ran pob un o'r ystyriaethau hyn, daethpwyd i gasgliadau tebyg iawn, a oedd yn ein sicrhau bod sail gadarn i'r cynnig.

**Sut mae cynllun pensiwn yr Aelodau yn cael ei newid?**

Rydym yn newid cynllun pensiwn yr Aelodau er mwyn ei gyfateb â'r rhai mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus. Bydd y cynllun yn llai hael o ran y manteision sy'n cronni a bydd y gost i'r trethdalwr o ran cyfraniadau'r cyflogwr yn gostwng. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynulliad nesaf, bydd y newidiadau a wnawn yn arbed dros £200,000 i'r trethdalwr.

**Faint yn fwy y bydd yn ei gostio?**

Bydd y newid yn y cyflog sylfaenol yn ychwanegu tua £580,000 i gostau cyflogau Aelodau yn 2016-17. Bydd hanner y swm hwnnw (£290,000) yn cael ei wrthbwyso drwy arbedion o newidiadau eraill rydym yn eu gwneud - gostyngiad yn y cyflogau ychwanegol a delir i ddeiliaid swyddi a gostyngiad yng nghyfraniad y trethdalwr i gynllun pensiwn yr Aelodau. Y gost ychwanegol net fydd £290,000 yn 2016-17.

**Sut mae hyn yn cymharu â deddfwrfeydd eraill?**

Cyflog Aelod Seneddol yn San Steffan fydd £74,000 o'r flwyddyn nesaf. Yn yr Alban, cyflog Aelod o Senedd yr Alban ar hyn o bryd yw £58,678, a bydd hynny'n cynyddu bob blwyddyn yn unol ag enillion cyfartalog yn yr Alban. Cyflog Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd yw £48,000.

Rydym wedi pwysleisio'n gyson fod angen i gyflog Aelodau gael ei ystyried ochr yn ochr â gwerth cyfraniad y trethdalwr i'w pensiynau er mwyn gallu rhoi ffigur ar gyfer cyfanswm eu tâl. Wrth ddefnyddio'r mesur hwn, bydd cyfanswm tâl Aelod Seneddol y flwyddyn nesaf tua £83,000. Cyfanswm y tâl i Aelod o Senedd yr Alban heddiw (2014) yw tua £71,000. O dan ein cynigion ni, cyfanswm y tâl i Aelod Cynulliad yn 2016 fyddai tua £75,000.

**Sut mae hyn yn cymharu â'r sector preifat / economi Cymru?**

Mae'r gwaith ymchwil a ddarparwyd ar ein cyfer gan yr HayGroup yn awgrymu y gellid disgwyl cyflog canolrif, ar gyfer swydd sydd â phwysau cymharol, o £82,500 yn y sector preifat. Yn y sector cyhoeddus / dielw, y ffigur cyfatebol fyddai tua £69,300.

Mae data a gynhwysir yn ein hadroddiad yn dangos bod y ffigur arfaethedig yn gyson â'r hyn a delir mewn rolau uwch eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Ble y gallaf ddod o hyd i wybodaeth gefndir ychwanegol?**

Mae holl ymgynghoriadau blaenorol y Bwrdd, a'r Penderfyniad blynyddol sy'n ymwneud â phob agwedd ar gyflog, pensiynau, cymorth a lwfansau i Aelodau wedi'u cyhoeddi ar dudalennau'r Bwrdd ar y we.

Cyflwynodd y Bwrdd dendr a chomisiynodd ddau adroddiad annibynnol i gefnogi ei waith ar daliadau:

- Gwnaeth Prifysgol Bangor waith ymchwil i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sy'n ceisio dod yn Aelod Cynulliad ac a yw cyflog yn ffactor arwyddocaol yn y penderfyniad i sefyll. Mae ei hadroddiad - Gwerthuso'r rhwystrau i ddod i'r Cynulliad: Beth sy’n ein rhwystro rhag sefyll i gael ein ethol? - ar gael i'w lwytho. Roedd y gwaith yn cynnwys cyfweliadau ag 20 o bobl, gan gynnwys Aelodau blaenorol a chyfredol, yn ogystal ag ymgeiswyr blaenorol, a swyddogion pleidiau.
- Comisiynwyd yr HayGroup i gymharu pwysau a chyfrifoldebau cymharol amrywiaeth o rolau a wneir gan Aelodau'r Cynulliad. Mae ei adroddiad - Job Evaluation and Remuneration Benchmarking for Assembly Members - hefyd ar gael i'w lwytho oddi ar ein tudalennau gwe. Roedd y gwaith yn cynnwys cyfweliadau â naw deiliad swydd gwahanol, yn ogystal ag Aelod o'r meinciau cefn.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Bydd yr ymgyngoriad hwn ar agor tan 12 Ionawr. Yna, byddwn yn ystyried y canlyniadau ac yn cyhoeddi ein pecyn llawn o gynigion ym mis Chwefror. Bydd y rhain hefyd ar agor i'r cyhoedd ymgynghori arnynt a byddwn yn cytuno ar y pecyn terfynol, a fydd yn cynnwys cyflog, pensiwn a phob agwedd arall ar gymlorth ariannol ar gyfer y Cynulliad nesaf, yn ystod gwanwyn 2015.